OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1852

# Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 13 Gorffennaf 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;

ystyr "gweithredydd" ("*operator*") yw'r person sydd, fel meddiannydd neu fel arall, â rheolaeth ar y fangre, y strwythur, y lifft neu'r cerbyd, yn ôl y digwydd, mewn cysylltiad â masnach, busnes neu ymgymeriad arall (boed am elw ai peidio) a ddygir ymlaen ganddo ac mae'n cynnwys ceidwad cerbyd fel a ddiffinnir yn adran 62(2) o Ddeddf Treth a Chofrestru Cerbydau 1994(**1**); ac

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le.

(**1**) 1994 p.22.